# Termau ac ymadroddion a ddefnyddir yng Nghymru ym maes gwella’r arfordir a’r môr

Nodyn arweiniad

**Rhif cyfeirnod:** GN 069

**Perchennog y ddogfen:** Pennaeth Busnes, Rheoli Adnoddau Naturiol

## Beth yw diben y ddogfen hon?

Mae’r ddogfen hon yn diffinio’r derminoleg a ddefnyddiwn mewn perthynas â phrosiectau gwella’r arfordir a’r môr.

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Y gynulleidfa darged yw staff mewnol a rhanddeiliaid allanol sy'n ymwneud â gweithgareddau i wella’r arfordir a’r môr neu sydd â diddordeb ynddynt.

## Manylion cyswllt ar gyfer cwestiynau ac adborth

Y Tîm Polisi a Chynllunio Morol ac Arfordirol

(mcppt@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

## Hanes y fersiynau

| Fersiwn o'r ddogfen | Dyddiad cyhoedd | i Crynodeb o’r newidiadau |
|---|---|---|
| **1.0** | 12-2022 | Cyhoeddwyd y ddogfen |
| | | |

Dyddiad adolygu: [12-2024]

I roi gwybod am faterion neu broblemau ynglŷn â'r canllaw hwn, cysylltwch â’r Tîm Datblygu Canllawiau

# Cyflwyniad

Mae gwella amgylcheddau morol ac arfordirol yn cael sylw cynyddol ar hyn o bryd gan ystod eang o randdeiliaid sy'n cydnabod y cyfleoedd i sicrhau buddion amgylcheddol a chymdeithasol lluosog.

Mae gan Gymru amgylchedd morol cyfoethog ac amrywiol sy’n cynnal amrywiaeth eang o rywogaethau a chynefinoedd.  I ddiwallu  anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, mae angen inni gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau morol  a'r buddion a ddaw ohonynt.

## Beth yw gwaith gwella/cyfoethogi?

Dyma'r termau trosfwaol a ddefnyddiwn i ddisgrifio gweithgareddau sy'n anelu at **wella ansawdd, maint neu ddosbarthiad daearyddol cynefin neu rywogaeth**.

O ystyried y diddordeb sy'n dod i'r amlwg mewn gwella morol ac arfordirol, rydym wedi nodi'r angen i ddatblygu tystiolaeth, cyngor ac arweiniad i gefnogi gweithgareddau gwella/cyfoethogi.

Rydym wedi egluro sut rydym yn defnyddio'r derminoleg ynghylch gweithgareddau gwella. Gall y termau hyn amrywio ymhlith unigolion a grwpiau, gan arwain at ddryswch.

Bydd y termau canlynol yn galluogi trafodaeth gliriach am weithgareddau gwella.

# Y termau/ymadroddion a ddefnyddiwn ym maes gwella'r arfordir a'r môr

## Gwella cynefinoedd a rhywogaethau

Gellir defnyddio'r term hwn fel term ymbarél a'i gymhwyso mewn perthynas â gweithgareddau sy'n anelu at wella ansawdd, maint neu ddosbarthiad daearyddol cynefin neu rywogaeth mewn lleoliad.

**Mae pob un o'r termau / ymadroddion isod yn enghreifftiau o weithgareddau gwella.**

## Caniatáu i gynefinoedd a rhywogaethau adfer eu hunain

I'w ddefnyddio mewn perthynas â chamau gweithredu a gymerwyd i alluogi cynefin neu rywogaeth i oresgyn difrod, neu amhariad arall, ac i fod mewn cyflwr gwell yn hytrach na cheisio "troi'r cloc yn ôl". Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu cael gwared ar bwysau a chaniatáu i'r cynefin adfer yn naturiol.

**Enghraifft:** Mae harbwr sydd â chynefin morwellt presennol ac sy'n cael ei niweidio gan greithiau angori wedi ei ddynodi'n barth lle nid angorir cychod yn wirfoddol. Mae hyn yn cael gwared ar y pwysau sy'n cael eu creu gan angorfeydd ac angorau fel nad ydynt yn difrodi'r morwellt ac mae felly'n galluogi'r cynefin i adfer yn naturiol.

## Adfer cynefinoedd a rhywogaethau

Mae adfer yn disgrifio prosiectau sydd yn cynnwys lefel o ymyrraeth. Mae prosiectau adfer yn ymwneud ag ailadeiladu cynefin neu ailgyflwyno rhywogaeth lle yr oedd i'w chanfod **yn hanesyddol** ond sydd erbyn hynnaill ai wedi diflannu'n llwyr neu lle na ellir ei hailsefydlu heb gymorth.

**Enghraifft:** Safle a oedd yn arfer bod yn gartref i nifer mawr o wystrys brodorol, ond lle mae'r poblogaethau wedi'u disbyddu'n ddifrifol a phrin yw'r unigolion sydd i'w canfod yno nawr. Mae prosiect yn cynnig gosod gwalfâu a grawn a chynnal gwaith monitro am nifer o flynyddoedd i werthuso i ba raddau y bydd boblogaeth yn cael ei hadfer.

## Creu cynefinoedd a chyflwyno rhywogaethau

Yn debyg i waith adfer, mae creu cynefinoedd yn disgrifio ymyriadau i gyflwyno rhywogaeth neu ailsefydlu cynefin. Y gwahaniaeth sylfaenol rhwng adfer cynefinoedd a chreu cynefinoedd yw bod y term hwn yn cyfeirio at achosion lle nad yw'n **hysbys i unrhyw gynefin neu rywogaeth** fod yno cyn yr ymyriad.

**Enghraifft:** Nid oes gan ardal unrhyw gofnod hanesyddol o bresenoldeb morwellt, ond mae arolygon safle wedi canfod y gallai'r amodau amgylcheddol gynnal dolydd morwellt. Mae prifysgol leol yn cynnig cynaeafu hadau morwellt o ddôl gyfagos a'u hau ar y safle.

## Gwelliant neu fudd anuniongyrchol

Unrhyw brosiect nad ei brif amcan yw gwella bioamrywiaeth, ond a allai arwain at wella ardaloedd cyfagos fel sgil-gynnyrch.

**Enghraifft:** Mae unigolyn yn dymuno sefydlu cyfleuster dyframaethu lle bydd yn magu wystrys brodorol mewn cewyll stoc fagu. Bydd yr wystrys yn y cewyll yn cael eu cynaeafu ond dim ond

ar ôl iddynt gyrraedd maint magu y bydd hyn yn digwydd. Gan fod is-haen addas gerllaw, y gobaith yw y gall y larfau a gynhyrchir ymgartrefu'n naturiol gerllaw. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw arolygon o'r ardal gyfagos yn cael eu cynnal cyn gosod y cewyll, ac nid oes unrhyw waith monitro wedi'i gynllunio yn y dyfodol.

# Termau eraill a ddefnyddir yn y sector

Rydym yn cydnabod bod y termau isod yn cael eu defnyddio’n eang o fewn y sector mewn perthynas â phrosiectau gwella. Ar hyn o bryd, teimlwn nad yw'r termau hyn yn cynrychioli prosiectau sy'n mynd rhagddynt yng Nghymru yn gywir ac rydym yn annog pobl i beidio â'u defnyddio mewn perthynas â gwaith gwella.

## Dad-ddofi (a elwir weithiau’n ‘Ailwylltio’)

Mae'r term hwn yn cyfeirio at adfer prosesau a swyddogaethau ar raddfa fawr iawn: ar raddfa ecosystem neu dirwedd gyfan. Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r term hwn mewn perthynas ag adfer cynefinoedd morol. Mae'r gwaith o wella cynefinoedd morol ar raddfa rhy fach, yn wyddonol ac o ran maint, i'r term gael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

## Adweirio (*remediation*)

Defnyddir y term hwn i gyfleu camau gweithredu sy'n ofynnol mewn perthynas ag achosion cemegol/llygredd neu ofynion asesiadau o’r effaith amgylcheddol ar gyfer datblygiadau morol – nid yw'n berthnasol i'r gwaith o wella cynefinoedd yn y DU.

## Adfywio cynefinoedd

Defnyddir y term hwn weithiau i ddisgrifio ymyriadau ar lefel is a all ddigwydd ochr yn ochr â chael gwared ar bwysau ac mae'n cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill yn y DU. O fewn cyd-destun Cymreig, teimlir bod y termau sydd wedi'u mabwysiadu yn ddigonol i ddisgrifio prosiectau a gallai cael gormod o dermau greu amwysedd.

# Rhagor o wybodaeth am waith i wella'r arfordir a'r môr

Mae gennym nifer o ddogfennau ar gael a all gefnogi ystyriaethau cychwynnol o weithgareddau i wella'r arfordir a'r môr, gan gynnwys:

- Adroddiadau Tystiolaeth CNC sy'n helpu i nodi beth a ble yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer adfer byd natur.
  - Adfer cynefinoedd morol ac arfordirol yng Nghymru: adnabod cyfleoedd gofodol a'u buddion (554)
  - Cefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: gwella ecosystemau morol (357)
- Adroddiadau Tystiolaeth CNC sydd wedi datblygu ein dealltwriaeth o'r ystod o fuddion sy'n deillio o adnoddau naturiol morol, sydd yn cael eu cefnogi gan fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.
  - Amcangyfrif Potensial Dal Carbon Amgylchedd Morol Cymru (428)
  - Potensial Carbon Glas y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru (631)
  - Deall sut y gall gwaith rheoli rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru gyfrannu at ddiogelu carbon glas a'i fwyhau (630)
- Canllawiau CNC i gefnogi'r defnydd o nodweddion gwelliannau ecolegol ar adeileddau ac asedau amddiffyn yr arfordir. Gallwch ddod o hyd i hyn ar ein gwefan: Cyfoeth Naturiol Cymru / Atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer rheoli arfordirol
- Canllawiau CNC "Egwyddorion yn cefnogi gwaith adfer a gwella mewn cynnig datblygu morol neu arfordirol". Cysylltwch â llyfrgell@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk i ofyn am gopi.

  .
- Llawlyfrau Adfer ar gyfer cynefinoedd penodol rydym wedi'u datblygu gyda'n partneriaid. Gallwch ddod o hyd iddynt ar wefan Catchment Based Approach
  - Llawlyfr Adfer Morfa Heli: y DU ac Iwerddon
  - Llawlyfr Adfer Morwellt: y DU ac Iwerddon

- Adfer Cynefinoedd Aberol ac Arfordirol gyda Gwaddod wedi'i Garthu: Llawlyfr
- Llawlyfr Adfer Wystrys Brodorol Ewropeaidd: y DU ac Iwerddon

Rydym hefyd yn darparu cyngor a chymorth i gyflawni prosiectau sy’n canolbwyntio ar wella ecosystemau morol ac arfordirol yng Nghymru, gan ymgysylltu â phartneriaid yng Nghymru a’r DU i ddatblygu tystiolaeth ac arferion gorau.